Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Maggi Dawson MBE
WEA Cymru
7 Cooper's Yard
Curran Road
Caerdydd
CF10 5NB

23 Ionawr 2015

Annwyl Maggi

**Adolygiad Blynyddol Estyn o Berfformiad – Adroddiad ar WEA Cymru**

Yn dilyn ymweliad yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad â'ch sefydliad ar 24 a 25 Tachwedd, mae'r llythyr hwn yn adroddiad blynyddol sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r ymweliad hwnnw. Cyhoeddir y llythyr hwn ar wefan Estyn.

Bu Rachael Bubalo AEM ac Alun Connick AEM yn arfarnu perfformiad presennol y sefydliad ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion a ddeilliodd o arolygiadau blaenorol. Mae hyn wedi arwain at nodi meysydd pellach i'w gwella, a gyflwynir ar ddiwedd y llythyr hwn.

Cynhaliodd arolygwyr drafodaethau â'r pennaeth ac uwch reolwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau'r corff llywodraethol. Buont yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol. Hefyd, fe wnaethant ystyried ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy graffu ar broses y darparwr o arsylwi gwersi.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd Rachael Bubalo AEM ac Alun Connick AEM eu canfyddiadau i bennaeth y sefydliad ac aelodau eraill yr uwch dîm rheoli.

**Canlyniad ymweliadau'r arolygydd cyswllt**

Ers arolygu CHWEAN a WEA y De yn 2010, mae cyflymder y gwelliant yn y sefydliad, ynghyd â'r cynnydd yn erbyn argymhellion y tîm arolygu, wedi bod yn dda.

**1 Deilliannau a safonau**

Yn ystod y cyfnod pan unodd WEA y De a CHWEAN i greu WEA Cymru, bu cwymp mewn perfformiad cyffredinol. Yn 2012/13, roedd cyfraddau llwyddiant yn y gogledd yn 81.8% ac yn 81.6% yn y de, o gymharu ag 85.7% ar gyfer y cymharydd cenedlaethol. Yn y de, mae hyn yn gyfystyr â chwymp mewn perfformiad o 4.4

pwynt canran ac, yn y gogledd, bu cwymp o 5.7 pwynt canran dros gyfnod tair blynedd. Bu cwymp tebyg mewn cyfraddau cyrhaeddiad.

Mae data heb ei wirio ar gyfer 2013/14 yn dangos y bu gwelliant da mewn cyfraddau llwyddiant yn y de, sydd wedi codi i 88%. Yn y gogledd, maent yn 80% o hyd, gyda chynnydd mewn cyfraddau gadael cyrsiau wedi cael effaith negyddol arnynt. Mae'n bosibl bod hynny yn sgil pryderon dysgwyr am CHWEAN y llynedd. Serch hynny, cyfradd llwyddiant dysgwyr WEA ar y cyd y llynedd oedd 84%.

Roedd SSIE wedi gwella 15 pwynt canran yn y de, sef gwelliant arbennig o dda, ac erbyn hyn mae'n perfformio uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol (86% o gymharu ag 81%). Dyma gyflawniad da o ystyried nifer uchel y dysgwyr sy'n dilyn y ddarpariaeth hon (1193). Fe wnaeth SSIE berfformio'n dda yn y gogledd hefyd (97%) ond gyda nifer llai o ddysgwyr (347). Cyflawnwyd hyn yn rhannol trwy ad-drefnu dyddiadau asesu terfynol i sicrhau bod y deiliannau'n cael eu dal mewn pryd cyn terfynau amser cyflwyno data.

Yn y gogledd, fe wnaeth dysgwyr Peirianneg a Thechnoleg Gweithgynhyrchu berfformio'n dda, (llwyddiant o 90% o gymharu â'r cymharydd cenedlaethol, sef 81%). Mae hyn yn adlewyrchu partneriaethau da gyda sefydliadau fel y Gwasanaeth Iechyd; cynhaliwyd llawer o'r gwaith hyn yn y Gwasanaeth Iechyd.

Mae enghreifftiau da o'r WEA yn gweithio mewn partneriaeth ag undebau llafur, sydd wedi cryfhau ansawdd y ddarpariaeth ac wedi gwella cyfraddau llwyddiant dysgwyr mewn Gweinyddu Busnes a'r Gyfraith, gan ddangos llwyddiant sydd ymhell uwchlaw cymaryddion (90% yn y gogledd a 91% yn y de, o gymharu ag 81%).

Mae tystiolaeth dda ar lafar o ddysgwyr yn mynd ymlaen i addysg arall, i hyfforddiant neu i waith, neu'n cyfrannu yn eu cymuned yn fwy neu'n ymwneud yn fwy â hi. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei fesur na'i ddadansoddi'n drylwyr ac mae'n aml yn fwy anodd ei olrhain nag mewn coleg traddodiadol. Mae'r darparwr wedi cydnabod bod angen arfarniad mwy trylwyr o hyn ac mae'n cynnal ymchwil i olrhain effaith dysgu ar ddatblygiad dysgwyr yn y dyfodol.

**Medrau hanfodol**

Mae darparwr yn nodi'n briodol bod medrau hanfodol yn flaenoriaeth yn ei gynllun strategol newydd. Ei nod yw cynyddu'r nifer sy'n dilyn y cyrsiau a chynyddu cyrhaeddiad, a gwella faint o addysgu a wneir yn y maes pwnc hwn a'i ansawdd. Mae wedi llunio cynllun gweithredu manwl, defnyddiol ar gyfer y maes hwn o'i waith. Mewn ychydig feysydd, mae diffyg targedau mesuradwy yn y cynllun. Mae data'n awgrymu bod deilliannau medrau hanfodol yn parhau islaw'r meincnod cenedlaethol ac nad ydynt yn gwella'n ddigon da. Mae'n rhy gynnar eto i ddweud a fydd y cynlluniau newydd yn ddigon effeithiol wrth fynd i'r afael â'r tanberfformio hwn.

Mae trefniadau'r darparwr ar gyfer asesu medrau hanfodol dysgwyr yn berthnasol i nifer bach iawn o ddysgwyr yn unig. Mae'r dysgwyr hyn yn cael cymorth digonol ond mae angen mwy o waith i fesur effaith hyn. Mae'r trefniadau asesu cyfyngedig yn golygu nad yw'r darparwr yn gyfarwydd â man cychwyn y rhan fwyaf o'i ddysgwyr ac ni all fesur eu gwelliant yn y medrau hyn o ganlyniad.

Mae cyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth partneriaid i gael cymorth ychwanegol yn dda.

Mae gan leiafrif o diwtoriaid gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru/SSIE ychwanegol defnyddiol.  Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw digon o diwtoriaid yn ddigon hyderus i gynorthwyo dysgwyr â'u medrau hanfodol.

Mae cynnydd digonol i ymgorffori medrau hanfodol ym mhob rhaglen.  Er enghraifft, mae menter beilot dda i gynnwys unedau medrau hanfodol yn llyfrynnau cyrsiau.

**Addysgu ac asesu**

Mae'r darparwr wedi datblygu systemau newydd i wella addysgu ac asesu.  Mae wedi defnyddio arfer dda o'r sefydliadau gwreiddiol i ddatblygu ac adolygu ei arfer.  Mae wedi datblygu cynllun arsylwi gwersi newydd ac mae'n bwriadu hyfforddi mwy o arsylwyr.  Yn 2013, barnodd y darparwr fod 76% o wersi yn rhagorol neu'n dda.  Nid yw cynlluniau i wella'r addysgu sy'n ddigonol yn unig wedi'u datblygu'n llawn eto.  Er enghraifft, nid yw datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i gysylltu'n ddigon da â deilliannau arsylwadau gwersi.  Nid yw'r rhaglen datblygu staff presennol yn cynnig digon o gyfle i diwtoriaid wella'u medrau addysgu.

Mae trefniadau da ar gyfer arsylwi'r addysgu gan staff newydd ac mae'r darparwr yn cefnogi'r rhain yn dda.  Hefyd, mae trefniadau cadarn ond teg i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.

Nid yw tiwtoriaid yn rhannu arfer dda yn ddigon aml.  Er bod hyn yn digwydd yn rheolaidd mewn diwrnodau tiwtoriaid, nid yw pob tiwtor yn gallu mynychu.  Mae'r darparwr wedi cydnabod hyn ac mae'n datblygu adnoddau ar-lein.  Gall tiwtoriaid fanteisio ar hyfforddiant perthnasol sydd ar gael trwy asiantaethau partner, ond nid yw'n glir faint sy'n gwneud hynny.

**Y Cwricwlwm**

Mae'r darparwr wedi cynhyrchu cynllun cwricwlwm newydd sy'n ffurfioli'r cynnig dysgu eang.  Mae'r cynllun yn uno cwricwlwm y ddau sefydliad blaenorol yn llwyddiannus ac mae'n ategu cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer cyflwyno dysgu i oedolion ar lefel Cymru gyfan.  Mae'r ddogfen yn ceisio ad-drefnu a chysylltu meysydd y cwricwlwm yn chwe llwybr i ddysgwyr.  Wrth lunio hon, mae'r darparwr wedi rhoi ystyriaeth dda i fforymau dysgwyr lleol.

Mae'r cynllun yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae dadansoddiad cynhwysfawr o ystadegau cenedlaethol allweddol a gwybodaeth am y farchnad lafur leol yn ei ategu'n dda.  Mae'r darparwr yn llunio dadansoddiad defnyddiol o hyn ar lefel awdurdod ac ar lefel ranbarthol.

Mae'r cynllun yn nodi'n glir y blaenoriaethau allweddol i'w datblygu, fel dysgu digidol, gwella medrau hanfodol dysgwyr a chynyddu cyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.  Mae targedau lleol a rhanbarthol da ar gyfer llwybrau'r cwricwlwm ac mae'r darparwr yn monitro'r rhain yn dda.  Nid yw'r cynllun wedi'i arfarnu eto felly mae'n rhy gynnar i ddweud pa mor dda y mae'r darparwr yn cyrraedd y targedau hyn.

Mae llawer o enghreifftiau da o'r darparwr yn cynnig darpariaeth berthnasol sy'n bodloni anghenion grwpiau targed ac unigolion penodol.  Mae datblygiadau calonogol mewn dysgu yn y gweithle, fel y dysgu gyda'r trydydd sector ac undebau

llafur.  Hefyd, mae'r darparwr yn gweithio'n llwyddiannus gydag archfarchnad fawr i gyflwyno medrau hanfodol i'r gweithlu.

Mae cyrsiau 'Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth' yn bodloni anghenion grwpiau penodol o ddysgwragedd yn dda iawn.  Mae'r cyrsiau'n helpu llawer i fod yn fwy gweithgar yn eu cymunedau, er enghraifft trwy ddod yn llywodraethwyr ysgol.

Mae'r darparwr yn cynnig ystod dda o gyrsiau ac mae rhai enghreifftiau da o ddysgwyr yn symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch, er enghraifft mewn Technolegau Digidol.  Yn ogystal, mae'r darparwr yn ymestyn cyfleoedd trwy ddatblygu cymwysterau mewn technoleg cerddoriaeth, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a thechnolegau creadigol ar Lefel 3.  Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen i'r lefelau uwch hyn yn y rhan fwyaf o gyrsiau.

Yn y gogledd, oherwydd y partneriaethau effeithiol a ddatblygwyd gan y sefydliad blaenorol, mae llwybrau da i addysg uwch.  Mae'r darparwr yn trosglwyddo'r arfer dda hon i'r de lle y mae llai o gyfleoedd am y dilyniant hwn.

Bu cynnydd da i drawsnewid dysgu heb achrediad a dysgu hamddenol yn glybiau hunangynhaliol.  Mae'r darparwr yn cefnogi'r rhain yn effeithiol trwy dalu am diwtor sydd ar gael unwaith y mis.  Mae'r cymorth hwn fesul cam yn helpu i ddatblygu cynaliadwyedd y clybiau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi symud ymlaen ag uno'r ddau ddarparwr yn dda.  Maent wedi annog trafodaethau pwysig sydd wedi galluogi staff i weithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau cyffredin.

Bu tri aelod o'r Cyngor ynghyd â'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn aelodau o Grŵp Llywio'r Uno, a ddaeth wedyn yn Fwrdd Cysgodol WEA Cymru.  Gwnaethant oruchwylio'n fedrus waith y pum grŵp a oedd yn gyfrifol am ddod â swyddogaethau allweddol y ddau sefydliad ynghyd.  Roedd Cadeirydd y Cyngor, y Llywodraethwyr a'r Ysgrifennydd Cyffredinol wedi cyfathrebu'n dda â'r holl staff trwy ymweliadau â chanolfannau a thrwy negeseuon e-bost.  Fe wnaeth hyn sicrhau bod yr holl staff wedi cael gwybod am hynt yr uno a'u bod yn deall eu rôl o ran cynorthwyo'r sefydliad newydd i gyrraedd ei nodau.

Mae cynllun strategol y darparwr yn ddefnyddiol, mae'n rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac mae'n diffinio nodau addysgol ehangach WEA Cymru yn glir.  Mae'r rhain yn cynnwys cynorthwyo dysgwyr i wneud mwy o gyfraniad yn eu cymunedau.  Mae'r cynllun yn diffinio'r amcanion a'r targedau y mae angen i staff eu bodloni er mwyn cyrraedd ei nodau.  Mae'r cynllun yn uchelgeisiol ac mae'n cyflwyno'i weledigaeth o rôl y darparwr mewn addysg a datblygiad cymunedol yn glir.  Rhannwyd y weledigaeth hon â staff yn dda trwy ddiwrnodau defnyddiol i diwtoriaid, gan eu galluogi i ddeall cyd-destun ehangach eu gwaith erbyn hyn.  Mae arweinwyr a rheolwyr yn cyfeirio'n fanwl at y cynllun wrth drafod mentrau newydd, felly mae cynllunio'n eglur.  Fodd bynnag, mewn ychydig feysydd, mae amcanion a thargedau'r cynllun yn canolbwyntio'n ormodol ar weithgareddau a phrosesau, yn hytrach nag ar yr effaith a'r deilliannau y maent yn anelu at eu cyflawni.  Oherwydd hyn, mae'n fwy anodd arfarnu effeithiolrwydd gwaith y darparwr.

Mae arweinwyr a rheolwyr strategol wedi recriwtio aelodau newydd i'r Corff Llywodraethol, gan ehangu'r arbenigedd. Mae aelodau newydd wedi cael hyfforddiant sefydlu defnyddiol. Mae llywodraethwyr hefyd wedi cymryd rhan weithgar mewn diwrnodau hyfforddiant i staff.

Mae strwythur rheolaeth weithredol newydd ar waith, ond mae'n rhy gynnar eto i farnu ei heffeithiolrwydd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth** (Sicrhau Ansawdd)

Bu cynnydd da wrth uno trefniadau gwella ansawdd y ddau sefydliad blaenorol. Mae'r darparwr wedi rhoi blaenoriaeth i sefydlu pwyllgor ansawdd a phrofiad y dysgwyr o fewn strwythur newydd y pwyllgorau. Mae hyn wedi cynhyrchu calendr cynllunio ac ansawdd defnyddiol. Mae'r calendr yn rhoi cyfle da i staff a dysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau hunanwella.

Mae cynllun datblygu ansawdd yn bodoli ac mae adroddiad hunanasesu pob un o'r sefydliadau blaenorol yn llywio'r cynllun hwn yn briodol. Mae'n nodi'r prif feysydd i'w datblygu yn glir. Caiff ei fonitro'n effeithiol gan y pwyllgor ansawdd a'r uwch dîm rheoli.

Mae cynlluniau wedi'u datblygu'n dda i gynhyrchu adroddiad hunanasesu unedig.

Mae'r sefydliad wedi cyfuno'i systemau MIS yn llwyddiannus, ond mae'n rhy gynnar eto i ddweud pa mor effeithiol y caiff y data unedig hwn ei ddefnyddio i amlygu tanberfformio a gosod targedau i wella'r ddarpariaeth.

Mae'r darparwr yn talu sylw da i farn dysgwyr ac yn ymateb yn dda i adborth. Er enghraifft, lle ceir cyrsiau â chyfraddau gwael o ran cadw dysgwyr, mae'r darparwr yn ymgynghori'n dda â dysgwyr i nodi'r rhesymau dros hyn.

Mae systemau da ar gyfer defnyddio adborth gan gyrff dyfarnu i wella'r ddarpariaeth.

Mae trefniadau da ar gyfer ymgynghori â phartneriaid fel colegau AB ac awdurdodau lleol i sicrhau bod systemau ansawdd yr amrywiol ddarparwyr hyn yn cyd-fynd yn dda â systemau'r darparwr. Mae staff yn arsylwi addysgu eu cymheiriaid gyda'r partneriaid hyn yn rheolaidd.

Mae'r darparwr wedi adolygu ei weithdrefnau i nodi a mynd i'r afael â thanberfformio. Mae gan diwtoriaid dargedau perfformio unigol sydd wedi'u cysylltu'n effeithiol â'r trefniadau rheoli perfformiad blynyddol. Mae polisïau a gweithdrefnau newydd yn sicrhau bod gofyn i staff gyfrannu at y broses hunanasesu.

Mae'r darparwr wedi blaenoriaethu datblygiad proffesiynol parhaus yn briodol fel ffordd bwysig o wella ansawdd. Fodd bynnag, prin fu'r arfarniad o fedrau staff ac nid yw cynlluniau datblygu staff wedi'u cysylltu'n ddigon da â mentrau gwella ansawdd eto.

Mae'r darparwr wedi sefydlu pwyllgor ymchwil defnyddiol i sicrhau ei fod yn ymgorffori arfer dda yn ei gynllunio.

**Crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion yn adroddiadau 2010**

Arolygwyd CHWEAN ac WEA y De ddiwethaf yn 2010. Mae'n ymddangos bod y

ddau sefydliad wedi gwneud cynnydd da o ran nifer o’r argymhellion allweddol o’r adroddiadau arolygu blaenorol. Maent wedi blaenoriaethau camau gweithredu’n dda yn eu trefniadau gwella ansawdd perthnasol. Fodd bynnag, nid yw cynllun datblygu ansawdd newydd y darparwr yn cyfeirio’n benodol at argymhellion blaenorol nac yn datgan a chyflawnwyd pob un o’r rhain ai peidio.

**Arall**

Mae nifer drawiadol o systemau ar waith gan WEA Cymru i ddal llais y dysgwr ac annog cyfranogiad dysgwyr. Fel sefydliad a reolir gan ei aelodau, mae strwythur llywodraethu unigryw gan WEA Cymru, gyda chynrychiolwyr dysgwyr o ganghennau lleol yn dod yn aelodau o Gyngor y sefydliad trwy bleidlais ddemocrataidd. Trwy fynychu fforymau a chyfarfodydd cangen, mae dysgwyr yn cymryd rhan dda yn y ddeialog sy’n helpu i lywio’u darpariaeth dysgu.

Mae WEA Cymru wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cyfranogiad Dysgwyr sy’n ceisio gwella ymhellach ei system o gael cynrychiolaeth dysgwyr er mwyn cynnwys dysgwyr anodd eu cyrraedd. Mewn un maes, er enghraifft, mae tiwtoriaid wedi llwyddo i gynnwys dysgwyr â phroblemau iechyd meddwl yn y broses adborth.

Mae gweithdrefn gwyno effeithiol a chaiff problemau sy’n codi eu datrys yn gynnar ar lefel leol. Hefyd, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu siarter y dysgwyr, a’i nod yw ceisio grymuso dysgwyr ymhellach.

Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch hunanasesu yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw’n glir bob amser sut caiff adborth dysgwyr ei ddefnyddio i wella addysgu a dysgu.

Yn arolwg 2014 Llais y Dysgwr i Gymru, dywedodd 91% o ddysgwyr WEA y De bod y darparwr yn dda iawn/yn dda at ei gilydd. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfartaledd y sector. Yn achos CHWEAN, dim ond 79% o ddysgwyr a ddywedodd fod y darparwr yn dda iawn/yn dda at ei gilydd. Mae’n bosibl bod yr ymateb gwael hwn wedi digwydd oherwydd pryderon dysgwyr am ddyfodol CHWEAN y llynedd.

**Darpariaeth Gymraeg**

Mae hyrwyddo’r Gymraeg a gwella ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru yn dargedau allweddol yng nghynllun strategol y darparwr. Yn ddiweddar, mae wedi cryfhau ei adnoddau staffio i barhau i ddatblygu’r ddarpariaeth Gymraeg a chyfrwng Cymraeg ac i gynorthwyo staff ymhellach i ymgorffori dysgu am ddiwylliant Cymru yn eu gwaith gyda dysgwyr.

Mae’r darparwr wedi llunio taflen ddefnyddiol yn amlinellu manteision dwyieithrwydd, y mae’n ei rhoi i ddysgwyr adeg ymrestru. Mae’r holl ddosbarthiadau yn cymryd rhan yn ‘Ymadrodd Cymraeg yr wythnos”. Mae Anogwr Cymraeg y darparwr yn rhoi hyfforddiant a chymorth defnyddiol i hyrwyddo’r iaith ac mae hefyd wedi gwella ystod y deunyddiau sydd ar gael ar ei wefan. Mae’r agwedd hon ar ddysgu bellach wedi’i chynnwys mewn arsylwadau gwersi. O ganlyniad, mae rheolwyr yn arfarnu pa mor effeithiol y mae staff yn ymgorffori ymwybyddiaeth o’r Gymraeg a diwylliant Cymru yn eu gwersi.

Yn ne Cymru, mae enghreifftiau da o bartneriaethau sydd wedi galluogi'r darparwr i ddatblygu darpariaeth yr iaith yn y gweithle.  Mae hyn eisoes wedi digwydd mewn nifer cynyddol o gyflogwyr allweddol, fel BT a Threnau Arriva.  Yn ddiweddar, gofynnodd 23 o ddysgwyr o Gymdeithas Tai RCT am gyrsiau iaith.

**Argymhellion**

Er mwyn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn modd amserol, dylai'r sefydliad:

A1 wella safonau mewn medrau hanfodol;

A2 cynyddu nifer y targedau mesuradwy yn y cynllun gweithredu medrau hanfodol a'u monitro'n effeithiol;

A3 gwella'r ffocws ar effaith mewn cynllunio strategol fel y gall gweithgarwch gael ei arfarnu'n well;

A4 cwblhau'r AHA unedig a sicrhau ei fod yn cynnwys cynnydd yn ôl argymhellion blaenorol lle bo'r rhain yn berthnasol o hyd;

A5 gwella'r cysylltiadau rhwng deilliannau arsylwadau addysgu a'r rhaglen datblygu staff i sicrhau bod ansawdd yr holl addysgu yn dda o leiaf; a

A6 gwella'r gwaith o olrhain cynnydd dysgwyr wrth iddynt symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu waith arall.

**Y camau nesaf**

O ganlyniad i'r arfarniad hwn, bydd gan y sefydliad 30 niwrnod i baratoi cynllun gweithredu.  Mae angen i'r cynllun gweithredu hwn amlinellu'r camau a gymerir gan y sefydliad i roi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith.  Mae angen i'r cynllun ddatgan yn glir pwy fydd yn gyfrifol am dasgau, ac mae angen iddo gynnwys cerrig milltir, nodi adnoddau perthnasol a dangos sut bydd y darparwr yn cyflwyno tystiolaeth o lwyddiant.

Yn ogystal â'r argymhellion, dylai'r sefydliad ymateb i'r holl faterion a nodir yn y llythyr hwn.

Dylai'r cynllun gweithredu gael ei anfon at Lin Howells yn: Linda.howells@estyn.gov.uk.

Bydd eich Arolygydd Cyswllt yn Estyn yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol a'r cynllun gweithredu drwy ei rôl gyswllt â'r sefydliad.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at gadeirydd y Corff Llywodraethol ac i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Cadeirydd y Corff Llywodraethol
Llywodraeth Cymru